

## Gwneud dim byd

**Cysyniadau:** Cyfeillgarwch, gofal, meddwl am eraill, penderfyniad.

**Amcan:** Pwysleisio'r pwysigrwydd o weithredu.

**Cyfarpar:** Dim.

### Cyflwyniad:

Heddiw rydym am drafod y syniad o 'wneud dim'. Holi'r plant beth yn union yw 'gwneud dim byd'. Dyma rai enghreifftiau:

- Ydi eistedd yn llonydd yn enghraifft o wneud dim byd?
- Beth am gysgu?

*Galw plentyn i sefyll fel cerflun neu ddelw.*

- Ydi cerflun yn aros yn llonydd ac yn gwneud dim byd?
- Ydi cerflun yn sefyll?
- Petai rhywun yn gwthio cerflun a'i daro i lawr ydi'r cerflun wedi gwneud rhywbeth?
- Beth yn union ydi ystyr 'gwneud' rhywbeth?
- Ydych chi'n gwybod beth yw 'berf'? Mae berf yn disgrifio gweithred o ryw fath.

- Pa air ydi'r 'ferf' yn y brawddegau hyn?

Dacw Elin yn dringo i fyny'r goeden.  
Rhedodd Iwan ar draws y stryd.  
Mae'r babi bach yn cysgu'n dawel.  
Ciciodd y blaenwr y bêl i ben pellaf y rhwyd.

### **Trafodaeth bellach:**

- Ydi o'n bosibl i ni 'wneud dim byd'?
- Sut medrwn ni 'weithredu', gwneud rhywbeth:
- I ni ein hunain? Ymolchi, brwsio'n gwallt, glanhau'n dannedd.
- Yn y cartref? Glanhau, golchi llestri, gwneud y gwely, tacluso'r stafell.
- Yn yr ysgol? Gweithio'n galed, chwarae'n dda.
- I eraill? Siopa, garddio, gwneud paned o de.
- Mae Iesu'n feirniadol iawn a llym ei dafod â'r rhai hynny sy'n dweud beth sydd angen ei wneud ond dydyn nhw ddim yn gweithredu. Mae'n sôn am y Phariseaid, y bobl grefyddol, ac mae'n dweud na ddylid dilyn eu hesiampl nhw.

Meddai Iesu: "Maen nhw'n gosod beichiau trwm eu rheolau crefyddol ar ysgwyddau pobl, ond wnân nhw ddim codi bys bach i helpu pobl i gario'r baich." Mathew 23:4 beibl.net

- Beth oedd Iesu'n feddwl wrth ddweud 'codi bys bach'?
- Sut medrwn ni helpu pobl sydd mewn angen:  
Yn lleol?  
Mewn gwledydd eraill?

- Ydi anfon arian at achosion da yn ddigon?
- Sut mae gweithredu'n uniongyrchol?

### Stori:

*Roedd Sam yn ei chael hi'n anodd iawn pasio heibio tŷ rhif 8. Mae o'n dal i gofio taro'r bêl griced a honno'n mynd yn syth i ardd rhif 8 a sŵn y gwydr yn torri'n deilchion. Un o wydrau'r tŷ gwydr. Er ei fod wedi mynd yno'n syth i ymddiheuro mi gafodd o bryd o dafod gan Mrs Jones, y perchennog. Roedd sŵn y gwydr yn torri'n deilchion yn dal yn ei glustiau.*

*Wrth fynd heibio'r tŷ efo'i ffrind ar ei ffordd adref o'r ysgol sylwodd fod y pwll yn y ffrynt yn llawn o lysnafedd gwyrdd. A dweud y gwir doedd dim golwg o'r dŵr o gwbl gan fod y tyfiant llysnafeddog yn drwchus drosto.*

*'Wn i,' meddai Sam wrth ei ffrind, 'beth am i ni fynd i ofyn i Mrs Jones ydi hi eisiau i ni glirio'r pwll iddi?'*

*Curodd Sam y drws. Daeth Mrs Jones i'r drws. 'Wel, be ydych chi eisiau? Chi wnaeth dorri gwydr y tŷ gwydr ynte?'*

*Mae'n amlwg nad oedd Sam na'i ffrind yn cael llawer o groeso gan Mrs Jones.*

*'Meddwl oedden ni tybed fuasech chi'n hoffi i ni lanhau'r pwll i chi ...'*

*Cyn i Sam orffen ei frawddeg roedd Mrs Jones wedi cythru iddo. 'Dim diolch yn fawr, rhag ofn i chi dorri rhywbeth arall. Ewch ...'*

*Ar hyn daeth dyn allan i'r ardd. 'Be sy'n bod?' gofynnodd.*

*'Yr hogia yma eisiau glanhau'r pwll i mi. Wyt ti'n cofio hwn, fo wnaeth dorri gwydr y tŷ gwydr ...'*

*'Wel,' meddai'r dyn, 'chwarae teg iddyn nhw am gynnig. Rho gyfle iddyn nhw. Da iawn chi hogia, brawd Mrs Jones ydw i. Ac ylwch, mi helpa i chi. Beth am fore Sadwrn?'*

*Pan wawriodd bore Sadwrn roedd Sam, ei ffrind a brawd Mrs Jones yn eu wellingtons a Mrs Jones yn cario sudd a the iddyn nhw. Erbyn canol y pnawn roedd y pwll yn edrych fel newydd.*

### **Trafodaeth bellach:**

- Sut un oedd Mrs Jones? Oedd hi'n dal dig?
- Beth am gymeriad Sam a brawd Mrs Jones?
- Ydi gweithredu yn bwysig?

### **Munud i feddwl:**

Dydych chi ddim wedi byw heddiw nes eich bod wedi gwneud rhywbeth i rywun na fedr dalu'n ôl i chi. John Bunyan

Rhowch nes ei fod yn brifo. Y Fam Theresa

### **Emyn: Dwylo ffeind oedd dwylo: Canu Clod 150**

#### **Myfyrdod/Gweddi:**

Mae'n rhaid i mi weithredu. Mae'n rhaid i mi wneud rhywbeth er mwyn pobl eraill. O Dduw, gwna fi'n unigolyn sydd yn meddwl am bobl eraill ond sydd hefyd yn barod i helpu pobl eraill. Diolch. Amen.